# ATODIAD B -Rheolau Sefydlog diwygiedig sy'n adlewrychu'r newidiadau a gynigir

## RHEOL SEFYDLOG 25 – Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor i'w gwneud o dan adran 109 o'r Ddeddf

### Cynigion am Orchymyn gan Aelod heblaw aelod o'r llywodraeth

25.26 Gall unrhyw Aelod, heblaw aelod o'r llywodraeth, gyflwyno cynnig sy'n galw ar y llywodraeth i gyflwyno Gorchymyn arfaethedig o dan adran 109 o'r Ddeddf.

25.27 Pan fydd Aelod yn cyflwyno cynnig o dan bwynt 25.27, rhaid iddo hefyd gyflwyno memorandwm esboniadol sy'n cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

(i) yr effaith fyddai cynnig am Orchymyn yn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;

(ii) esboniad o pam, ym marn yr Aelod, mae'r Gorchymyn yn angenrheidiol;

(iii) manylion ynghylch unrhyw gymorth a gafwyd i'r cynnig, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed.

25.28 Os oes o leiaf deg Aelod, sy'n aelodau o dri grŵp gwleidyddol gwahanol neu fwy, yn cefnogi'r cynnig a gyflwynwyd o dan Reol Sefydlog 25.27 rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio'r cynnig a'r memorandwm esboniadol at bwyllgor neu bwyllgorau i'w hystyried.

25.29 Pan fydd cynnig o dan Reol Sefydlog 25.27 yn cael ei gyfeirio at bwyllgor neu bwyllgorau i'w ystyried o dan Reol Sefydlog 25.29, rhaid i'r Pwyllgor Busnes bennu a chyhoeddi amserlen er mwyn i'r pwyllgor neu bwyllgorau ystyried y cynnig a chyflwyno adroddiad yn ei gylch.

25.30 Rhaid trefnu bod amser ar gael i drafod cynnig a gyfeiriwyd at bwyllgor neu bwyllgorau o dan Reol Sefydlog 25.29, ac ni chaniateir gwneud cynnig o'r fath nes y bydd naill ai:

(i) y pwyllgor neu bwyllgorau wedi cyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 22.59; neu

(ii) bod y dyddiad cau erbyn pryd y mae'n ofynnol i bwyllgor neu bwyllgorau gyflwyno adroddiad arno, yn unol â Rheol Sefydlog 25.30, wedi mynd heibio.

25.31 Ni chaniateir cyflwyno gwelliant i gynnig o dan Reol Sefydlog 25.27 os na fyddai'n glir, yn sgil penderfyniad gan y Cynulliad i gymeradwyo'r cynnig fel y'i diwygiwyd gan welliant o'r fath, sut fyddai'r Cynulliad am weld ei gymhwysedd deddfwriaethol yn cael ei addasu.

25.32 Os gwrthodir cynnig o dan Reol Sefydlog 25.27, ni chaiff Aelod wneud cynnig o dan Reol Sefydlog 25.27 am gyfnod o chwe mis ar ôl gwrthod y cynnig os yw'r cynnig, ym marn y Llywydd, yn ceisio rhoi yr un cymhwysedd deddfwriaethol, neu yr un cymhwysedd deddfwriaethol i raddau helaeth.

**RHEOL SEFYDLOG 24 – Diffiniad o Aelod sy'n Gyfrifol am Ddeddfwriaeth**

**Biliau Aelodau**

24.14 Cyfeirir at Filiau nad ydynt yn Filiau'r llywodraeth, Biliau pwyllgor nac yn Filiau'r Comisiwn, fel "Biliau Aelod".

24.15 Yr Aelod sy'n gyfrifol am Bil Aelod yw:

(i) yr Aelod a gafodd gytundeb i gyflwyno Bil o dan Reol Sefydlog 26.91;

(ii) Aelod arall sydd wedi'i awdurdodi gan yr Aelod o dan Reol Sefydlog 24.15(i), drwy gyfrwng datganiad i'r perwyl hwnnw a osodwyd gan yr Aelod hwnnw; neu

(iii) os na roir awdurdodiad felly, unrhyw Aelod sydd wedi'i awdurdodi gan y Cynulliad.

24.16 Caiff Aelod drosglwyddo Bil i aelod o'r llywodraeth sydd wedi'i awdurdodi gan Brif Weinidog Cymru, drwy gyfrwng datganiad i'r perwyl hwnnw a osodwyd gan yr Aelod hwnnw.

24.17 Pan fydd Aelod yn trosglwyddo Bil i aelod o'r llywodraeth (yn unol â Rheol Sefydlog 24.16), mae'r Bil hwnnw i'w gyfrif, o hynny allan, fel Bil llywodraeth.

**RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Cynulliad**

26.86 Mewn achos pan oedd Aelod yn cyflwyno cynnig a ddaeth yn Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wnaed gan Ei Mawrhydi o dan adran 109 o'r Ddeddf, caiff yr Aelod hwnnw gyflwyno Bil sy'n ymwneud â'r Gorchymyn hwnnw o fewn naw mis i'r dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl yr Aelod i ymuno â balot a gynhelir o dan Reol Sefydlog 26.87.